Y Comisiwn Etholiadol

Rhoi gwybod am rodd neu ymweliad

Noder: Os hoffech roi gwybod am fenthyciad neu gyfleuster credyd, defnyddiwch ffurflen RD1C

Mae rheolau gwahanol ar gyfer aelodau pleidiau Gogledd Iwerddon, cymdeithasau aelodau a deiliaid swyddi yng Ngogledd Iwerddon. Defnyddiwch ffurflen RD1F i roi gwybod am y rhoddion hyn.

Pwy ddylai lenwi'r ffurflen hon?

Dylech lenwi'r ffurflen hon:

(a) os ydych

- yn Aelod o Senedd Ewrop (ASE), Aelod Cynulliad (AC), Aelod o Senedd yr Alban (ASA), aelod o Awdurdod Llundain Fwyaf (GLA), maer etholedig neu'n gynghorydd lleol (ac eithrio cynghorwyr plwyf a chymuned); **neu**
- yn aelod o blaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru â'r Comisiwn; **neu**
- yn gweithredu ar ran sefydliad y mae ei aelodau i gyd neu'r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau o blaid gofrestredig benodol ('cymdeithas aelodau') **a**

(b) eich bod wedi derbyn rhodd neu fod rhywun arall wedi talu am ymweliad yn ymwneud â'ch gweithgareddau gwleidyddol **a**

(c) bod y rhodd honno, neu'r holl roddion, ymweliadau neu fenthyciadau gan yr un ffynhonnell yn ystod y flwyddyn galendr hon, yn werth dros £1,500 (ar gyfer unigolion), neu dros £7,500 (ar gyfer cymdeithasau aelodau). Wrth gyfansymio rhoddion gwahanol gan yr un ffynhonnell, dim ond rhoddion dros £500 y mae angen i chi eu cyfrif.

Pan fyddwch yn cael rhodd, bydd gennych 30 diwrnod calendr i benderfynu p'un a ddylid ei derbyn ai peidio. Tybir eich bod yn derbyn y rhodd oni fyddwch yn ei dychwelyd o fewn yr amser hwn. **Os byddwch yn derbyn rhodd, rhaid i chi roi gwybod i ni o fewn 30 diwrnod calendr i ddyddiad eich penderfyniad.**

Noder: Gallwch ond dderbyn rhoddion dros £500 gan rai ffynonellau penodol yn y DU, ac rydych yn gyfrifol am gymryd camau i gadarnhau pwy yn union yw eich rhoddwyr. Rhestrir y ffynonellau hyn yn adran 3 o'r nodiadau ar lenwi'r ffurflen.

Os na allwch gadarnhau mai un o'r ffynonellau hyn sydd wedi rhoi'r rhodd o fewn 30 diwrnod calendr, dylech ei dychwelyd i'r rhoddwr. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid i chi anfon yr arian atom o fewn 30 diwrnod calendr i'w gael. Telir arian a anfonir atom i mewn i gronfeydd cyhoeddus.

Rhaid i chi roi gwybod i ni os cewch rodd nas caniateir neu rodd ddienw a dweud wrthym beth rydych wedi ei wneud â hi, a hynny o fewn 30 diwrnod calendr i chi ddychwelyd y rhodd neu anfon yr arian atom. Gallwch wneud hyn ar ffurflen RD1B.

Mae hyn yn gymwys i bob rhodd heblaw am ymweliadau tramor, y gallwch eu derbyn gan unrhyw ffynhonnell.

Beth yw rhodd?

Mae rhoddion yn cynnwys anrhegion o arian neu eiddo, a nwyddau neu wasanaethau a ddarperir ar delerau anfasnachol. Mae noddi digwyddiad neu gyhoeddiad ar eich rhan, neu dalu eich treuliau ar ymweliad yn rhoddion hefyd.

Beth yw gweithgareddau gwleidyddol?

Mae gweithgareddau gwleidyddol yn cynnwys

- gweithgareddau pleidiol, seneddol a llywodraethol
- hyrwyddo ymgeisydd mewn etholiad am swydd o fewn y blaid
- annog eraill i ddewis rhywun yn ymgeisydd ar gyfer etholiad
- gwaith ymgyrchu y tu allan i'r cyfnod y mae angen i chi gyflwyno ffurflen dreuliau ymgeisydd ar ei gyfer
- hyrwyddo polisïau i'w mabwysiadu gan y blaid
- hyrwyddo buddiannau grŵp penodol neu endid arall i'r blaid

Ceir canllawiau manylach yn ein cyhoeddiad *Donations and loans: guidance for regulated donees.* Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth am bwy y gallwch dderbyn rhoddion ganddynt, beth a gaiff ei gyfrif yn rhodd, sut i bennu gwerth rhoddion a mwy o fanylion am roi gwybodaeth i ni.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan, www.comisiwnetholiadol.org.uk

Gallwch hefyd ein ffonio ar 020 7271 0616, neu ysgrifennu atom yn:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Y Comisiwn Etholiadol

Rhoi gwybod am rodd neu ymweliad

Mae'r nodiadau ar lenwi'r ffurflen yn cynnwys canllawiau ar lenwi'r blychau sydd wedi'u rhifo.

Adran A Eich manylion (i'w llenwi gan bawb) [1]

Enw

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Cyfeiriad [1]

Cod post

Rwyf (ticiwch) yn ASE ☐ yn AC ☐ yn ASA ☐ yn gynghorydd ☐

arall

Adran B Manylion rhodd (os ydych yn rhoi gwybod am ymweliad, ewch yn syth i Adran C)

Enw'r rhoddwr

Cyfeiriad y rhoddwr [2]

Cod post

Statws y rhoddwr [3] (ticiwch)

- unigolyn ☐
- plaid gofrestredig ☐
- cymdeithas adeiladu ☐
- undeb llafur ☐
- cymdeithas lesiant ☐
- cymdeithas anghorfforedig ☐
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ☐
- cwmni (rhowch rif cofrestru'r cwmni isod) ☐

arian cyhoeddus (ar gyfer cymdeithasau aelodau yn unig) ☐

Y ddarpariaeth dros roi arian cyhoeddus

Adran B Manylion rhodd (parhad)

Os oes gan y rhoddwr gofnod dienw mewn cofrestr etholwyr, cadarnhaf fy mod wedi gweld y dystiolaeth a ragnodir i ddilysu hyn [4] (ticiwch) ☐

Dyddiad y daeth y rhodd i law [5]

D D M M B B B B

Dyddiad derbyn y rhodd

D D M M B B B B

Dylai hyn fod o fewn 30 diwrnod calendr i'r dyddiad y daeth y rhodd i law.

Math o rodd (ticiwch a nodwch y swm ar gyfer rhoddion arian, a natur a gwerth rhoddion anariannol)

Rhodd arian ☐ ➤ Swm £

Rhodd anariannol ☐ ➤ Natur y rhodd

Gwerth y rhodd £

Ticiwch bob un o'r canlynol sy'n gymwys

Rhoddir gwybod am y rhodd fel cyfanswm o roddion [6] ☐

Rhoddir y rhodd fel cymynrodd ☐

Rhoddir y rhodd fel nawdd [7] ☐

Adran C Manylion ymweliad (os ydych yn rhoi gwybod am rodd, ewch yn syth i Adran Ch)

Dyddiad dechrau'r ymweliad

D D M M B B B B

Dyddiad gorffen yr ymweliad

D D M M B B B B

Y lle/lleoedd yr ymwelwyd ag ef/â hwy

Diben yr ymweliad

Enw'r unigolyn /sefydliad sy'n ariannu'r ymweliad

Gwerth yr ymweliad £

Nid wyf wedi gallu canfod gwerth yr ymweliad, ond credaf ei fod yn fwy na £1,500 [8] ☐
(dim ond os nad oes cyfwerth masnachol clir y dylid ticio'r blwch hwn)

Cyfeiriad yr unigolyn/sefydliad sy'n ariannu'r ymweliad

Cod post

Adran Ch **Datganiad (i'w gwblhau gan bawb)**

Cadarnhaf, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod y rhodd wedi'i rhoi gan roddwr a ganiateir (ticiwch) ☐

Datganaf, hyd eithaf fy ngwybodaeth, fod y wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen hon yn gywir.

Pwysig: mae'n drosedd i unigolyn wneud datganiad anwir yn fwriadol neu'n ddi-hid.

Llofnodwyd

Dyddiad D D M M B B B B

Printiwch yr enw

Rhaid i unigolion lofnodi'r ffurflen eu hunain. Ni all rhywun arall wneud hyn ar eich rhan.

Yn achos cymdeithas aelodau, trysorydd y gymdeithas neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am reoli'r rhoddion i'r gymdeithas ddylai lofnodi'r ffurflen.

Dychwelwch y ffurflen hon i:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Ffôn: 020 7271 0616
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: pef@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol yn unig

Dyddiad y daeth i law D D M M B B B B Ar amser? Oedd ☐ Nac oedd ☐

Cyfeiriwyd at y tîm gorfodi? Do ☐ Naddo ☐ ➤ Dyddiad D D M M B B B B

Dyddiad dychwelyd gan y tîm gorfodi D D M M B B B B

Dyddiad cofnodi D D M M B B B B

Nodiadau ar lenwi ffurflen RD1A

Adran A – Eich manylion

1 Cyfeiriad

Noder bod yn rhaid i ni gyhoeddi eich cyfeiriad ar ein cofrestr. Os dymunwch, gallwch ddefnyddio cyfeiriad swyddfa lle gellir cysylltu â chi'n hawdd.

Adran B – Manylion rhodd

2 Cyfeiriad y rhoddwr

Os mai unigolyn yw'r rhoddwr, rhowch y cyfeiriad a ddangosir ar ei gyfer yn y gofrestr etholwyr. Os mai cymynrodd yw'r rhodd, rhowch y cyfeiriad diwethaf a ddangosir ar gyfer y rhoddwr yn y gofrestr. Ni chyhoeddir cyfeiriadau unigolion. Os yw'r rhoddwr wedi'i gofrestru'n ddienw, nid oes angen i chi roi cyfeiriad (gweler nodyn 4 isod).

Os mai sefydliad yw'r rhoddwr, rhowch gyfeiriad y swyddfa gofrestredig (neu gyfeiriad y brif swyddfa ar gyfer cymdeithas anghorfforedig).

3 Statws y rhoddwr

Dim ond rhoddion gan un o'r ffynonellau canlynol y gallwch eu derbyn:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru yn un o gofrestrau etholiadol y DU
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU a'i gorffori yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- plaid wleidyddol, undeb llafur, cymdeithas adeiladu neu gymdeithas lesiant sydd wedi'u cofrestru ym Mhrydain Fawr
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU
- mathau penodol o ymddiriedolaeth. Os ydych yn rhoi gwybod am rodd gan ymddiriedolaeth, cysylltwch â'r Comisiwn i gael y ffurflen briodol.

Gall cymdeithasau aelodau dderbyn rhoddion o arian cyhoeddus hefyd.

Gall ASE sy'n cynrychioli rhanbarth cyfunol De-orllewin Lloegr a Gibraltar a chymdeithasau aelodau sy'n gysylltiedig â phleidiau o Gibraltar dderbyn rhoddion gan ffynonellau o Gibraltar.

4 Etholwyr dienw

Os oes gan roddwr gofnod dienw yn y gofrestr etholwyr, caiff gadarnhad ysgrifenedig o'i gofnod gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol. Rhaid i chi gadarnhau eich bod wedi gweld y cadarnhad hwn. Noder y byddwn yn cyhoeddi enw'r rhoddwr ar ein cofrestr, ond nid ei gyfeiriad na lleoliad.

5 Dyddiad y daeth y rhodd i law

Fel arfer, hwn fydd y dyddiad i chi gael yr arian neu'r gwasanaethau sy'n rhan o'r rhodd. Os caiff rhodd ei throsglwyddo'n uniongyrchol i gyfrif banc, y dyddiad y cewch wybod am y taliad ydyw. Gallech gael gwybod amdano drwy gyfriflen banc neu drwy edrych ar y cyfrif ar-lein.

6 Rhoddir gwybod am y rhodd fel cyfanswm o roddion

Dylech roi tic yn y blwch hwn os ydych yn rhoi gwybod i ni am rodd am eich bod wedi cael sawl rhodd o fwy na £500 gan yr un ffynhonnell yn ystod y flwyddyn galendr hon, a'u bod bellach yn werth dros £1,500 (ar gyfer unigolion) neu £7,500 (ar gyfer cymdeithasau aelodau).

7 Rhoddir y rhodd fel nawdd

Dylech roi tic yn y blwch os cafodd y rhodd ei rhoi i'ch helpu i dalu cost unrhyw gynhadledd, cyfarfod neu ddigwyddiad arall a gynhaliwyd ar eich rhan, neu unrhyw gyhoeddiad, astudiaeth neu ymchwil a drefnwyd gennych neu ar eich rhan.

Adran C – Manylion ymweliad

8 Gwerth yr ymweliad

Deallwn nad yw bob amser yn bosibl pennu gwerth ymweliad tramor yn gywir os nad oes cyfwerth masnachol clir. Os felly, ticiwch y datganiad ar y ffurflen.

Dychwelyd y ffurflen hon

Dychwelwch y ffurflen hon wedi'i llofnodi i:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ